

Arolygiad Dilynol Lle Rhoddwyd Rhybudd Urddas a Gofal Hanfodol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Ysbyty Prifysgol Cymru

Ward B7

Dyddiad yr arolygiad 29^{ain} Ebrill 2014

Arolygiad Dilynol AGIC: Ward B7, Ysbyty Prifysgol Cymru

Arolygwyr: Ymgynghorydd Gwasanaeth Clinigol AGIC ac Arolygydd Clinigol (Cymheiriaid).

Staff y Bwrdd Iechyd:

Rheolwr y Ward (arolygiad a sesiwn adborth) a staff ward B7 (arolygiad)

Uwch Nyrs ar gyfer Meddyginiaethau (arolygiad a sesiwn adborth)

Nyrs Arweiniol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol a Rheoleiddio (cyflwyniad yr arolygiad a sesiwn adborth)

Nyrs Arweiniol ar gyfer Meddyginiaethau (cyflenwi yn yr arolygiad ar ran yr uwch nyrs ar gyfer meddyginiaethau a sesiwn adborth).

Nyrs y Bwrdd Clinigol ar gyfer Gofal heb ei Drefnu (sesiwn adborth)

Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol (cyflwyniad yr arolygiad)

Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol y Bwrdd Iechyd (sesiwn adborth)

Cefndir:

Cafodd y Bwrdd Iechyd wybod am yr arolygiad dilynol a chyhoeddwyd y dyddiad a'r amserlen arolygu.

Canolbwyntiodd yr arolygiad dilynol ar ganfyddiadau Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol mis Rhagfyr 2012 a'r cynnydd yr oedd y Ward a'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud ers mis Rhagfyr 2012 yn erbyn y meysydd canlynol:

- Amgylchedd y ward
- Agwedd, ymddygiad a gallu'r staff o ran cyflwyno gofal urddasol
- Rheoli cleifion gyda nam gwybyddol, anghenion cymhleth, gan gynnwys dryswch a dementia
- Asesu gofal, cynllunio gofal a chofnodi gofal, gan gynnwys gwerthuso'r ddarpariaeth o ofal
- Rheoli cofnodion

- Asesiadau a gofal hylif a maeth
- Gofal o friwiau pwyso
- Gofal a hylendid personol
- Anghenion toiled
- Larymau galw
- Cyfathrebu
- Rheoli poen
- Rheoli meddyginiaethau
- Cynllunio i ryddhau (pan fo hynny'n fwy cymhleth)
- Gweithgareddau

Yn ystod yr arolygiad, y rhoddwyd rhybudd yn ei gylch ac a gwblhawyd yn arddull archwiliad dirybudd, aethom ati i edrych ar safon gyffredinol profiad y cleifion a'r hanfodion gofal. Edrychwyd ar reolaeth ac arweiniad ac ansawdd a diogelwch y gwasanaeth clinigol.

Cyflwynwyd tystiolaeth i ni i gadarnhau bod y Ward wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed yn ystod yr Arolygiad gwreiddiol. Nodwyd gennym fod y Ward wedi gwneud cynnydd yn rhannol gyda chyflawni argymhellion eraill yr Arolygiad gwreiddiol, gyda gwaith parhaus ar droed (Gweler y tabl isod).

Asesiadau a Chanfyddiadau'r Arolygiad Dilynol:

Crynohoir ein canfyddiadau yn y tabl isod.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom staff y Ward yn ofalus eu ffordd a'u dull gyda'r cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr. Mae'r Ward wedi gwneud nifer o gyflawniadau sy'n rhoi pwyslais ar ofal diogel a chyfathrebu effeithiol gyda chleifion a'u teuluoedd/gofalwyr.

Gwelsom berthnasau wedi ymlacio yn amgylchedd y Ward. Roedd perthnasau'n ymddangos yn gyfforddus i holi cwestiynau i'r staff a gwelwyd cyfathrebu ystyrllon ar waith rhwng cleifion, perthnasau a staff.

Y Ward a'r Gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu:

Ward B7 yw'r gwasanaeth Meddygaeth Anadlol i gleifion mewnol ar safle YPC. Mae'r Ward yn darparu ar gyfer cleifion gwrywaidd a benywaidd a dderbynnir i'r ysbyty gyda'u cyflwr tymor hir wedi gwaethygu, neu a dderbynnir gyda chyflwr meddygol newydd. Mae'r Ward yn gweithio gan gadw at y Canllawiau Anadlol Cenedlaethol. Mae gan y Ward Glinigydd Meddygol Arweiniol, Gwasanaeth Arbenigol gan Nyrs Glinigol a gwasanaeth mewn ac allgymorth cymunedol. Mae gan y Ward gysylltiadau â Gwasanaeth Anadlol cleifion mewnol Ysbyty Llandochau drwy gydlynw gan Uwch Reolwr Nyrsio.

Mae lefel aciwtedd y cleifion ar y Ward yn gymysg. Mae hyn yn amrywio o gleifion dibyniaeth fawr sy'n cael cymorth anadlu anfewnwthiol i'r rhai nad oes arnynt angen cymorth mecanyddol, dim ond therapi ocsigen, a'r rhai sy'n gallu anadlu'n annibynnol. Oherwydd natur eu cyflwr, mae'r cleifion i gyd yn colli rhywfaint ar eu gwynt ac angen cymorth gyda gweithgareddau o ddydd i ddydd ac amser i gynnal eu hannibyniaeth cystal â phosib. Yn ystod yr arolygiad dilynol, cafwyd gwybodaeth gan y cleifion a'r staff i gefnogi'r casgliad bod y staffio'n ddigonol i ddiwallu anghenion gofal y cleifion.

Cynnydd Ers yr Arolygiad Gwreiddiol:

Cyflwynodd Rheolwr y Ward a'r Uwch Nyrs dystiolaeth o'r gwaith sydd wedi'i wneud yn erbyn argymhellion yr arolygiad gwreiddiol. Mae'n ymddangos bod cynnydd wedi'i wneud ac mae hwn wedi'i amlinellu yn y tabl isod. Argymhellwyd yn y sesiwn adborth y dylai'r Ward weithio yn unol â chynllun gweithredu unigol wedi'i ddiweddarau ar gyfer y ward, a chytunodd y Bwrdd Iechyd i fwrw ymlaen â hyn.

Mae'r holl argymhellion wedi cael eu harwain a'u cyflawni'n fewnol gan dîm y Ward, gyda chefnogaeth yr Uwch Reolwr Nyrsio. Hefyd, cefnogir y ward gan Arbenigwyr Nyrsio Clinigol a gwasanaethau eraill ledled y Bwrdd Iechyd i gefnogi gweithredu cynllun gweithredu'r Ward.

Gwelwyd pwyslais ar ofal a oedd yn rhoi lle canolog i'r claf a chafodd ei ddisgrifio i'r Arolygwyr gyda sylw i'r Hanfodion Gofal ar gyfer unigolion. Gwelsom safon dda wrth gyflwyno'r agweddau sylfaenol ar ofal yn ystod yr arolygiad dilynol. Roedd hyn yn cynnwys arsylwi prydau bwyd, cleifion yn derbyn diodydd cynnes ac oer, cleifion yn cael cymorth i barhau i fod yn annibynnol cystal â phosib. Gwelwyd y staff yn rhyngweithio'n sensitif â chleifion, yn helpu cleifion i gerdded i'r toiled ac i wyllo'r teledu wrth eu gwely os oeddent yn gaeth i'w gwely oherwydd symptomau eu cyflwr meddygol, os oedd arnynt angen cymorth gyda hyn. Roedd y staff yn cyfathrebu'n sensitif â pherthnasau a staff ac fe'u gwelwyd yn gwarchod preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu gofal wrth y gwely.

Disgrifiwyd y gwaith o fonitro ansawdd a diogelwch yn y Ward. Mae system Statws Cip ar y Claf (*Patient Status at a Glance – PSAG*) ar waith, a ddefnyddir gan y tîm aml-broffesiynol cyfan. Y nyrsys sydd piau'r system a

thrwy gyfrwng strwythurau arweinyddiaeth Nyrsio'r ward, mae atebolrwydd yn ei le er mwyn sicrhau bod y byrddau PSAG yn cael eu diweddarau'n gyson. Mae gan y ward system o fynd rownd y byrddau, sy'n golygu bod y tîm aml-broffesiynol cyfan yn defnyddio'r Bwrdd PSAG fel ffocws i'r cyfathrebu am gleifion unigol wrth drosglwyddo o un shifft i'r nesaf. Hefyd, er enghraifft, pan mae staff meddygol yn mynychu'r ward cyn mynd rownd y ward.

Mae system o "Rowndio Bwriadol" yn rhan o drefniadaeth y gwaith nyrsio yn y Ward. Mae cleifion yn cael amser a sylw rheolaidd gan y staff nyrsio, sydd hefyd yn ategu unrhyw ofal unigol angenrheidiol eraill. Mae'r Ward yn ystyried gweithredu cofnodion amser real yn ogystal â chofnodi rheolaidd yn ystod shifftiau. Roedd y defnydd o'r Bwrdd PSAG wedi'i weithredu'n llawn ac mae wedi datblygu'n dda.

Mae'n ymddangos bod y Ward yn uno'r systemau newydd o rowndio bwriadol â'u dull blaenorol o drefniadaeth neilltuo gofal i glaf. Mae'n ymddangos bod trefn fwy systematig y Ward, sy'n cynnwys y drefn rowndio, yn canolbwyntio cymaint o amser â phosib ar ofal uniongyrchol o gleifion wrth eu gwelyau, oherwydd fe welsom fod y cofnodion yn cael eu diweddarau wrth y gwelyau mewn amser real. Roedd y Ward yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith ar gofnodi gofal er mwyn cyflawni gwerthusiad amser real o ofal yn llawn, ac i werthuso gofal yn rheolaidd o shifft i shifft. Daethom i'r casgliad bod angen gwneud rhagor o waith ar y broses gyflawn o asesu, cynllunio, gweithredu a gwerthuso gofal, o'r dechrau i'r diwedd. Ar lefel y Gyfarwyddiaeth, drwy gyfrwng y strwythur rheoli proffesiynol, ceir system o archwiliadau dirybudd gan yr Uwch Nyrs, sy'n cynnwys adolygu nodiadau achos. Mae'r system hon yn galluogi i'r Uwch Nyrs godi canfyddiadau'n unigol gyda'r staff a thrafod gofynion ar gyfer gwella, er mwyn sicrhau bod y safon ar gyfer cofnodi'n cael ei bodloni. Rydym yn argymhell

system reolaidd o archwilio nodiadau achos yn erbyn adnodd archwilio, i ychwanegu at gorff o dystiolaeth y Ward i ategu ei gwelliannau mewn cofnodi gofal.

Mae dangosyddion gofal yn cael eu monitro a'u cofnodi drwy gyfrwng y System Metrigau Gofal. Roedd dystiolaeth o gefnogaeth a thryloywder ar draws ac i fyny drwy'r strwythurau nyrsio, meddygol a rheoli proffesiynol. Roedd dystiolaeth gref o waith tîm aml-broffesiynol yn y Ward, er budd y cleifion. Mae'r Ward yn defnyddio adnoddau eraill i ddatblygu meysydd gofal, gan gynnwys y cysylltiadau â'r Nyrs Gofal Dementia a'r Ymgynghorydd Nyrsio, Oedolion Agored i Niwed. Cydnabyddir bod y gwaith hwn wedi datblygu ond gwaith ar droed ydyw o hyd, er mwyn cyflawni sylfaen wybodaeth a sgiliau gyson yn llawn ymhlith y staff i gyd. Nodwyd bod gan y staff sgiliau hyblyg i ddelio â chleifion yn y cyfnod aciwt o ofid anadlol a'r cyfnod pan maent yn fwy sefydlog ond eto heb adfer yn llawn.

Cofnod Arolygiad Dilynol Lle Rhoddwyd Rhybudd AGIC 29/04/14 Ward B7 Ysbyty Prifysgol Cymru

Canfyddiad yr Arolygiad Gwreiddiol	Canfyddiad Dilynol AGIC	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
<p>Yn ystod yr arolygiad dilynol, gwelwyd y cleifion yn cael gofal da gan y staff. Roedd y staff yn cyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd sensitif ac fe'u gwelwyd yn ystyriol yn eu dull o gyfathrebu a darparu gofal, gan ddangos agwedd ofalgar. Dywedodd cleifion a pherthnasau wrthym fod cleifion yn cael gofal a sylw da. Roedd hyn yn cynnwys sylw i anghenion gofal personol unigol a'u hangen am wybodaeth am eu gofal a'u triniaeth. Gwelsom dystiolaeth o wybodaeth ysgrifenedig am gleifion a deunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos ar y wal.</p>				
<p>Amgylchedd y Ward</p>	<p>Nododd arolygiad dilynol AGIC bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei Gyflawni.</p> <p>Mae arwydd ar gyfer toiled y dynion/merched wedi cael ei osod yn ei le.</p> <p>Gwelwyd bod y Ward mewn cyflwr da o ran glendid a chadw tŷ cyffredinol.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r Ward a'r Bwrdd Iechyd gynnal safon amgylchedd y Ward.</p>		

Cyflwyno Hanfodion Gofal				
Gwelsom fod y Ward wedi cyflawni gwelliant ym mhob maes ond un yn argymhellion yr Arolygiad gwreiddiol. Gwelsom yn ystod yr Arolygiad dilynol bod y Ward yn cyflwyno hanfodion gofal o safon dda.				
Bathodynnau Adnabod y Staff	Cyflawnwyd. Gwelwyd bod y staff i gyd yn gwisgo bathodynnau adnabod.	Mae'n ofynnol i'r Ward a'r Bwrdd Iechyd gynnal y Safonau Hanfodion Gofal		
Gallu darparu gofal urddasol Defnyddio Pegiau Urddas	Cyflawnwyd- safonau wedi cwrdd yn ystod cyfnod ein harolygiad dilynol.	Mae'n ofynnol i'r Ward a'r Bwrdd Iechyd gynnal y Safonau Hanfodion Gofal		
Y rheolaeth ar gleifion sydd â nam gwybyddol, gan gynnwys gofal Dementia.	Heb ei gyflawni yn llawn ond mae cynnydd wedi'i wneud; er gall y Ward ddatblygu ymhellach yn y maes hwn. Mae peth hyfforddiant wedi'i gyflawni.	Mae'n ofynnol i'r Ward barhau i wneud cynnydd gyda'r argymhelliad hwn a'i gyflawni'n llawn.		
Cynllunio a darparu gofal	Cyflawnwyd- safonau wedi cwrdd yn ystod cyfnod ein harolygiad dilynol.	Mae'n ofynnol i'r Ward a'r Bwrdd Iechyd gynnal y Safonau Hanfodion Gofal		
Hylif a Maeth	Cyflawnwyd- safonau wedi cwrdd yn ystod cyfnod ein harolygiad dilynol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd eu bod nhw wedi cynnal ymchwiliad i darddiad y pin bawd (darganfuwyd mewn pryd o fwyd) yn ystod ein harolygiad blaenorol ac wedi cymryd camau er mwyn sicrhau na fydd hwn yn digwydd eto. Sylwyd trolïau bwyd ddim yn cael ei gadael ger hysbysfyRDDau -	Mae'n ofynnol i'r Ward a'r Bwrdd Iechyd gynnal y Safonau Hanfodion Gofal		

	ffactor risg cysylltiol gyda chanfyddiadau o'n harolygiad blaenorol.			
Gofal ymataliaeth	Cyflawnwyd - safonau wedi cwrdd yn ystod cyfnod ein harolygiad dilynol.	Mae'n ofynnol i'r Ward a'r Bwrdd Iechyd gynnal y Safonau Hanfodion Gofal		
Gofal briwiau pwyso	Cyflawnwyd - safonau wedi cwrdd yn ystod cyfnod ein harolygiad dilynol.	Mae'n ofynnol i'r Ward a'r Bwrdd Iechyd gynnal y Safonau Hanfodion Gofal		
Larymau Galw	Roedd un larwm yn gwrthod gweithio ar un adeg yn ystod yr arolygiad. Cafodd hwn ei newid yn ystod yr arolygiad, gan gywiro'r sefyllfa.	Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y larymau'n gweithio'n iawn ac yn cael eu cynnal a'u cadw.		
Cynllunio i Ryddhau	Cyflawnwyd - Mae'r ward yn cydnabod bod rhaid i sylw a chynnydd cyson barhau gyda chleifion sydd ag anghenion rhyddhau cymhleth.	Mae'n ofynnol i'r Ward a'r Bwrdd Iechyd gynnal y safon hon		
Rheoli poen	Cyflawnwyd - safonau wedi cwrdd yn ystod cyfnod ein harolygiad dilynol.	Mae'n ofynnol i'r Ward a'r Bwrdd Iechyd gynnal y safon hon		
Rheoli Meddyginiaethau	Cyflawnwyd - Gweithredwyd y tabardau coch	Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ystyried a gweithredu system golchi dillad effeithiol ar gyfer y tabardau coch.		

Rheolaeth ac Arweiniad

Yn ystod yr Arolygiad dilynol, nodwyd arweiniad Rheolwr y Ward gennym a gwelsom fod Rheolwr y Ward a'r staff yn cael cefnogaeth dda gan yr Uwch Staff Nyrsio. Dywedodd Rheolwr y Ward bod staff digonol ar gael ar gyfer gofynion y gofal clinigol yr oedd angen ei ddarparu ar y Ward. Os bydd aciwtedd y cleifion yn cynyddu, sy'n gallu digwydd yn eithaf rheolaidd oherwydd y gwahanol lefelau o ofal sydd o'r cleifion ar y Ward, ceir gweithdrefn gynyddu sy'n anelu at sicrhau bod staff ychwanegol ar gael.

Mae'n ofynnol i'r Ward a'r Bwrdd Iechyd gynnal safon y rheolaeth a'r arweiniad a welwyd yn ystod yr arolygiad dilynol.

Ansawdd a Diogelwch

Gwelsom fod y staff yn ofalgar ac yn ystyriol wrth siarad â chleifion ac wrth ddarparu gofal iddynt.

Mae'n ofynnol i'r Ward gynnal y dull gofalgar ac ystyriol Proffesiynol hwn o roi sylw i ddefnyddwyr y gwasanaeth (cleifion, perthnasau a gofalwyr).

Gwelsom fod angen gwneud rhagor o waith ar lif y cofnodion nyrsio er mwyn cyflawni cofnodion cydlynol o'r gofal, ar gyfer asesu, cynllunio, gweithredu a gwerthuso'r gofal.

Mae'n ofynnol i'r Ward, gyda chefnogaeth briodol y Bwrdd Iechyd, ddatblygu a chyflawni llif cydlynol o gofnodion unigol am Asesu, Cynllunio, Gweithredu a Gwerthuso Gofal.